**Yn eisiau - Cynhyrchydd Llawrydd**

**Ffi:** £10,000 yn ogystal â chostau teithio

(Yn cyfateb i tua 50 diwrnod o waith)

**Dyddiadau'r contract:** rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2024

**Lleoliad:** hybrid (cyfuniad o weithio o bell ac ar y safle yn y Lyric, Caerfyrddin a'r Ffwrnes, Llanelli).

**Dyddiadau allweddol ar y safle:** 5 Hydref; 30 Tachwedd; 2 – 12 Rhagfyr; 29 Rhagfyr (i gyd yn y Lyric, Caerfyrddin).

**Ynglŷn â'r rôl**

Mae Theatrau Sir Gâr yn chwilio am gynhyrchydd llawrydd profiadol i'n helpu i gydgysylltu gweithgareddau ar nifer o brosiectau sy'n digwydd yn fuan; y prif brosiect yw Beauty & The Beast, y Pantomeim Nadolig yn Theatr y Lyric, Caerfyrddin.

Bydd y Cynhyrchydd yn gweithio ochr yn ochr â'r tîm mewnol yn Theatrau Sir Gâr, a'n partneriaid yn Imagine Theatre, i sicrhau bod y Pantomeim mewnol yn cael ei greu'n llwyddiannus yn Theatr y Lyric, gan ddarparu cymorth hefyd ar lond llaw o brosiectau creadigol a chydweithredol eraill ar draws ein tair theatr yn ôl yr angen.

**Cyfrifoldebau a Chyflawniadau**

Beauty & The Beast:

- Rheoli cyllideb y cynhyrchiad
- Arwain yr holl gyfarfodydd cynhyrchu
- Ar y cyd ag Imagine Theatre, sicrhau castio amserol ar gyfer yr holl brif rolau, rolau proffesiynol a rolau ensemble iau
- Sicrhau recriwtio amserol ar gyfer y timau creadigol, rheoli llwyfan a hebryngwyr
- Rheoli prosesau trwyddedu perfformiadau plant a rheoli hebryngwyr, gan sicrhau diogelu a chydymffurfio â'r gofynion trwyddedu
- Rheoli'r amserlen gynhyrchu a chefnogi'r tîm mewnol i reoli cynyrchiadau
- Ar y cyd ag Imagine Theatre, rheoli contractau ar gyfer yr holl bersonél
- Cefnogi a chyfrannu at yr ymgyrch farchnata

Prosiectau eraill:

- Cefnogi logisteg, amserlennu, contractio a chynllunio gweithgareddau ar brosiectau creadigol eraill yn ôl yr angen

Gofynion

- Profiad o gynhyrchu perfformiadau a digwyddiadau theatr byw (hanfodol)
- Gwybodaeth a phrofiad o iechyd a diogelwch, trwyddedu perfformiadau plant, diogelu, cynaliadwyedd a pholisïau a gweithdrefnau GDPR (hanfodol)
- Profiad o reoli cyllidebau (hanfodol)
- Sgiliau cyfathrebu ac ysgrifennu cryf (hanfodol)
- Profiad o gynhyrchu pantomeimiau (dymunol)
- Gallu siarad Cymraeg (dymunol)
- Profiad o drafod contractau (dymunol)

**I wneud cais**

Anfonwch eich CV ysgrifenedig atom a naill ai:

1) Llythyr eglurhaol yn dweud wrthym pwy ydych chi a sut mae eich profiad yn berthnasol i'r cyfle.

   NEU

2) Ffeil fideo neu sain, hyd at 3 munud o hyd, o'r maint lleiaf posibl (dolen YouTube breifat sydd orau) sy'n mynd i'r afael â'r un pwyntiau ag uchod.

drwy e-bost i: Cynhyrchu@sirgar.gov.uk erbyn dydd Llun 15 Gorffennaf 5pm